Gwiwerod Coch a Gwiwerod Llwyd

Red and greys

Ffoto/Photo: © T. Graham

Y Wiwer Goch

Red Squirrel

Mae'r corff yn rhyw 25 centimedr o hyd, a'r gynffon yn rhyw 20 centimedr. Mae ganddi glustiau tuswog amlwg. Mae'n chwilota am ei bwyd ym mrig y coed gan wledda ar hadau mewn conau ynghyd ag aeron a ffrwythau.

Body is up to 25 cm long; tail measures up to 20 cm. Distinctive tufted ears. Feeds in the canopy on seeds in cones, berries and fruit.

Y Wiwer Llwyd

Grey squirrel

Ffoto/Photo:
© Richard Burkmarr

Mae'r corff yn rhyw 23–30 centimedr o hyd, a'r gynffon yn rhyw 19–24 centimedr. Llwyd yw ei lliw ond mae iddi wawr gochlyd weithiau. Mae'n chwilota am ei bwyd mewn coed yn bennaf, ond mae'n treulio tipyn o amser ar lawr hefyd yn turio am ffyngau, am fylbiau a gwreiddiau, ac am gnau wedi eu celcio, yn ogystal â chwilio am wyau, cywion bach, dail, a blagur.

Body is 23–30 cm long; tail measures 19–24 cm. Grey in colour but may have reddish tinge. Foraging takes place mainly in trees, but also on the ground for fungi, bulbs, roots and cached nuts as well as eggs, nestlings, leaves, buds and shoots.

YMDDIRIEDOLAETHAU natur CYMRU
THE WILDLIFE TRUSTS WALES

Gwiwerod Coch yng Nghanolbarth Cymru

trysorau cudd ein coedwigoedd

Red Squirrels in Mid Wales

hidden treasure in our forests



Prosiect Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru
Mid Wales Red Squirrel Project
c/o CCW
Beechwood House
Talley Road
Llandeilo
SA19 7HR

Affix stamp
Gosodwch stamp yma

Prosiect Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru

Mid Wales Red Squirrel Project

- Mae'r Prosiect yn gwneud ei orau glas i gael cymaint o wybodaeth â phosibl am wiwerod coch a'u dosbarthiad yng Nghanolbarth Cymru.
- Mae'r gwaith a gyflawnwyd hyd yn hyn yn dangos bod gwiwerod coch Canolbarth Cymru yn arbennig. Yn wahanol i wiwerod Coch arall yng Nghymru, mae'r rhain yn wir o wreiddiau Cymreig.
- Mae'r gwiwerod coch mewn perygl o hyd – mae gwiwerod llwyd yn dal i ennill tir yn y coedwigoedd conwydd, ac os na chymerir camau yn ddiymdroi bydd y gwiwerod coch yn darfod o'r tir.
- Trwy gydweithio â rheolwyr y coedwigoedd rydym yn gobeithio sicrhau bod y gwiwerod coch yn dal i oroesi yn ein coedwigoedd diarffordd.
- Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan sef ***www.wwbic.org.uk/redsquirrelproject***
- The Project is trying to find as much about the red squirrels and their distribution as possible.
- Work carried out has shown the mid Wales reds are very special. Unlike other red squirrels in Wales, they are of true Welsh origin.
- They are still endangered – greys are encroaching into the conifer woodland and without immediate action the reds will become extinct.
- By working with forest managers we hope to ensure that reds continue to survive in our isolated forests.
- Find out more at ***www.wwbic.org.uk/redsquirrelproject***



Ardal Prosiect Gwiwer Goch Canolbarth Cymru
Mid Wales Red Squirrel Project Area

Gwiwerod Coch yng Nghymru

Red Squirrels in Wales

Mae gwiwerod coch wedi bod yn rhan o fywyd gwyllt Cymru ers amser maith iawn. Arferent fod yn gyffredin yng Nghymru, ond bellach y farn yw taw mewn tair ardal yn unig y mae niferoedd sylweddol ohonynt, sef ar Ynys Môn ac yng Nghoedwig Clocaenog yng Ngogledd Cymru, ac yng nghoedwigoedd Canolbarth Cymru. Yn eironig ddigon, mae'r hyn sy'n weddill o'r rhywogaeth gynhenid hon yn byw bellach yn y coedwigoedd conwydd estron.

Red Squirrels have long been part of Wales' natural history. Once a common sight there are thought to be only three significant red squirrel populations left in Wales: on Anglesey, Clocaenog Forest in North Wales and the mid Wales forests. Ironically this native species is now largely hanging on in the non-native conifer forests.

Beth yw'r rhesymau dros y dirywiad?

Why have they declined?

- Colli a darnio cynefinoedd sef coetiroedd.
- Cystadleuaeth gan wiwerod llwyd – mae'r rhain yn drech o ran cael gafael ar fwyd, gan beri bod prinder bwyd i'r gwiwerod coch, ac mae hynny yn ei dro yn effeithio ar lwyddiant y rhywogaeth i fagu.
- Afiechydon – mae gwiwerod llwyd yn cludo firws sef brech y gwiwerod, sy'n angheuol i wiwerod coch

Bellach mae gwiwerod llwyd 66-1 yn fwy niferus yng Nghymru a Lloegr na gwiwerod coch.

- Loss and fragmentation of woodland habitat
- Competition from grey squirrels – they dominate food supplies, resulting in food shortages for reds and reducing their breeding success.
- Disease – greys are a carrier of the squirrelpox virus, which is deadly to reds

Greys now out number reds by 66-1 in England and Wales.

Ffoto/Photo: © Elliot Smith

A ydych chi wedi gweld gwiwer goch yng Nghanolbarth Cymru?

Have you seen a red squirrel in Mid Wales?

Os ydych, rydym am gael gwybod gennych! Anfonwch eich gwybodaeth at Brosiect Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru:

We'd like to know! Please send your sighting to the Mid Wales Red Squirrel Project:

Dyddiad / faint o'r gloch . . . . . .
Date/time

Ymhle (cyfeirnod grid). . . . . .
Where (grid ref)

Beth oedd y wiwer yn ei wneud?
What was the squirrel doing?

. . . . . .

. . . . . .

. . . . . .

. . . . . .

. . . . . .

Eich manylion cyswllt chi:
Your details:

. . . . . .

. . . . . .

. . . . . .

. . . . . .

. . . . . .

. . . . . .